CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2007 Rhif 316 (Cy.30)

# COMISIYNYDD PLANT, CYMRU

## Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Diwygio) 2007

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan VI o Reoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 sy'n gwneud darpariaeth parthed swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru ("y Comisiynydd").

Mae Rhan VI o Reoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 yn darparu ar gyfer gwneud adroddiadau penodol gan y Comisiynydd.

Diwygir Rhan VI er mwyn caniatáu, pan fo'r Comisiynydd a'r Comisiynydd ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru yn cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â'r un mater, i'r Comisiynydd a'r Comisiynydd ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru lunio adroddiad ar y cyd. Ceir darpariaeth debyg yn Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hyn Cymru 2007.

Yn ogystal mae'r rheoliadau hyn yn diwygio y diffiniad o'r Prif Weinidog yn y Rheoliadau yn union ar ôl terfyn y Cyfnod Cychwynnol a nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y diffinir y Prif Weinidog fel y Prif Weinidog a apwyntir o dan adran 46(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 316 (W.30)

# CHILDREN'S COMMISSIONER, WALES

## The Children's Commissioner for Wales (Amendment) Regulations 2007

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend Part VI of the Children's Commissioner for Wales Regulations 2001 which make provision in relation to the functions of the Children's Commissioner for Wales ("the Commissioner").

Part VI of the Children's Commissioner for Wales Regulations 2001 makes provision for specific reports to be made by the Commissioner.

Part VI is amended in order to provide that where the Commissioner and the Commissioner for Older People in Wales discharge their functions in relation to the same matter, the Commissioner may make a joint report with the Commissioner for Older People in Wales. A similar provision applies in the Commissioner for Older People in Wales regulations 2007.

In addition, these Regulations provide that the definition of First Minister in the Regulations is amended after the initial period specified in the Government of Wales Act 2006, so as to define the First Minister as the First Minister appointed under section 46(1) of the Government of Wales Act 2006.

Mae Arfarniad Rheoliadol ar effaith posibl y rheoliadau hyn ar gost busnes wedi'i baratoi yn unol ag adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac wedi'i roi yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copïau oddi wrth Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

A Regulatory Appraisal as to the effect these regulations might have on business costs have been prepared pursuant to s.65 of the Government of Wales Act 1998 in relation to these regulations, and placed in the library of the National Assembly for Wales. Copies may be obtained from the National Assembly for Wales, Crown Buildings, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2007 Rhif 316 (Cy.30)

# COMISIYNYDD PLANT, CYMRU

## Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Diwygio) 2007

*Wedi'u gwneud* *6 Chwefror 2007*

*Yn dod i rym* *9 Chwefror 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 74(2) (d) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Diwygio) 2007 a deuant i rym ar 9 Chwefror 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**2**.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

"y Comisiynydd" ("*the Commissioner*") yw Comisiynydd Plant Cymru.

"y cyfnod cychwynnol" ("*the initial period*") yw y cyfnod cychwynnol fel y'i diffinir yn adran 161(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

"y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000.

**Diwygiadau i Reoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001**

**3**.-1 Diwygir Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001(**2**) yn unol â'r darpariaethau a ganlyn o'r rheoliad hwn.

(**1**) 2000 p.14

(**2**) 2001/2787 (Cy.237)

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 316 (W.30)

# CHILDREN'S COMMISSIONER, WALES

## The Children's Commissioner for Wales (Amendment) Regulations 2007

*Made* *6 February2007*

*Coming into force* *9 February 2007*

The National Assembly for Wales, in exercise of its powers under section 74 (2) (d), to the Care Standards Act 2000 (**1**) makes the following Regulations:

**Title, commencement and interpretation**

**1**.-(1) The title of these Regulations is the Children's Commissioner for Wales (Amendment) Regulations 2007 and they come into force on 9 February 2007.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**2**. (1) In these Regulations-

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Care Standards Act 2000.

"the Commissioner" ("*y Comisiynydd*") means the Children's Commissioner for Wales.

"the initial period" ("*y cyfnod cychwynnol*") means the initial period as defined in section 161(5) of the Government of Wales Act 2006.

**Amendments to the Children's Commissioner for Wales Regulations 2001**

**3**.-(1) The Children's Commissioner for Wales Regulations 2001(**2**) are amended in accordance with the following provision of this regulation.

(**1**) 2000 c.14

(**2**) 2001/2787 (W.237)

(2) Yn dilyn dod i ben y cyfnod cychwynnol, ar gyfer y dehongliad o "y Prif Weinidog" ("*the First Minister*") rhodder y diffiniad canlynol:-

ystyr "y Prif Weinidog" ("*the First Minister*") yw'r person a benodir o dro i dro fel Prif Weinidog Cymru o dan adran 46(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(3) Diwygier rheoliad 13 fel a ganlyn -

(a) Ar ôl rheoliad 13(2), ychwaneger-

"(2A) Os bydd y Comisiynydd a'r Comisiynydd ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru yn cyflawni eu priod swyddogaethau o dan y Ddeddf ac o dan Ddeddf Comisiynydd ar gyfer Pobl Hyn (Cymru) 2006(**1**) ynghylch yr un mater caiff y Comisiynydd lunio adroddiad ar y cyd â'r Comisiynydd ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru. "

(b) Yn rheoliad 13(3), yn lle "(1) neu (2)" rhodder "(1), (2) neu (2A)."

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

6 Chwefror 2007

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(2) Following the expiry of the initial period, for the definition of "the First Minister" ("*y Prif Weinidog*"), substitute the following definition:-

"the First Minister" ("*y Prif Weinidog*") means the person appointed from time to time as the First Minister for Wales under section 46(1) of the Government of Wales Act 2006.

(3) Amend regulation 13 as follows -

(a) After regulation 13(2), add-

"(2A) Where the Commissioner and the Commissioner for Older People in Wales discharge their respective functions under the Act and the Commissioner for Older People (Wales) Act 2006(**1**), in relation to the same matter the Commissioner may make a joint report with the Commissioner for Older People in Wales."

(b) In regulation 13(3), for "(1) or (2)" substitute "(1), (2) or (2A)."

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**2**)

6 February 2007

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 2006 p.30

(**2**) 1998 p.38.

(**1**) 2006 c.30

(**2**) 1998 c.38.

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W0001/02/07 ON